OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1272 (Cy. 88) (C. 73)

# TAI, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Tai (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Darfodol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) 2015

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym, ar 27 Ebrill 2015, Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("y Ddeddf"), ac eithrio adran 75(3) (aelwydydd sy'n ddigartref yn fwriadol ac sydd â phlant) ac, yn rhannol, adran 78 (penderfynu rhoi sylw i fwriadoldeb). Mae'r Gorchymyn hefyd yn gwneud darpariaethau darfodol a throsiannol a darpariaethau arbed o ganlyniad i gychwyn Rhan 2.

Dyma'r trydydd gorchymyn cychwyn a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf.

Mae erthygl 2 yn cychwyn, i'r graddau nad yw wedi ei chychwyn eisoes, Ran 2 (digartrefedd) o'r Ddeddf, yn ddarostyngedig i'r eithriadau isod. Mae adran 100 o'r Ddeddf yn cyflwyno Rhan 1 o Atodlen 3 sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol ynglŷn â Rhan 2 o'r Ddeddf. Mae'r diwygiadau hyn, ymhlith pethau eraill, yn cael yr effaith o gyfyngu cymhwyso Rhan 7 o Ddeddf Tai 1996 at Loegr.

Mae erthygl 2 hefyd yn cychwyn adran 78 o'r Ddeddf, ond dim ond at ddibenion caniatáu i awdurdodau tai lleol benderfynu rhoi sylw i ddigartrefedd bwriadol mewn perthynas â chategorïau penodedig o geiswyr. Mae'n caniatáu hefyd i hysbysiadau penderfyniadau gael eu cyhoeddi.

Mae erthygl 3 yn dwyn adran 78 i rym at bob diben sy'n weddill ar 1 Gorffennaf 2015.

Mae erthygl 5 yn arbed Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014. Mae hefyd yn addasu'r Rheoliadau fel eu bod yn gweithredu fel pe baent wedi eu gwneud o dan y Ddeddf.

Mae erthygl 6 yn addasu adran 75(2)(d) o'r Ddeddf i hepgor y cyfeiriad at benderfynu rhoi sylw i fwriadoldeb, nes i adran 78 ddod i rym yn llawn ar 1 Gorffennaf 2015.

Mae erthygl 7 yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â pherson sydd wedi gwneud cais cyn 27 Ebrill 2015 am gymorth o dan Ran 7 o Ddeddf Tai 1996.

Mae erthygl 8 yn gwneud addasiad darfodol i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970, er mwyn cyfeirio at swyddogaethau digartrefedd yr awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol o dan y Ddeddf.

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau canlynol yn y Ddeddf wedi eu dwyn i rym yn llawn (oni nodir fel arall) drwy orchymyn cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Darpariaeth* | *Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 2 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 3 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 5 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 6 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 7 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 8 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 10 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 12 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 14 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 15 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 16 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 19 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 20 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 21 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |

| | | |
|---|---|---|
| Adran 23 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 29 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 34 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 40 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 41 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 42 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 46 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 49 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 50 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 57 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 59 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 64 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 72 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 78 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 80 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 81 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 86 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 95 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 98 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 99 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 101 | 25 Chwefror 2015 | 2015/380 (Cy. 39) |
| Adran 102 | 25 Chwefror 2015 | 2015/380 (Cy. 39) |
| Adran 105 | 25 Chwefror 2015 | 2015/380 (Cy. 39) |
| Adran 106 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 106 (at y dibenion sy'n weddill) | 25 Chwefror 2015 | 2015/380 (Cy. 39) |
| Adran 107 | 25 Chwefror | 2015/380 |

| | | |
|---|---|---|
| | 2015 | (Cy. 39) |
| Adran 108 | 25 Chwefror 2015 | 2015/380 (Cy. 39) |
| Adran 109 | 25 Chwefror 2015 | 2015/380 (Cy. 39) |
| Adran 110 | 25 Chwefror 2015 | 2015/380 (Cy. 39) |
| Adrannau 111 i 128 | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 130 a Rhan 3 o Atodlen 3 | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 131(4)(c) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 137 | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 140 | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 141 a Rhan 5 o Atodlen 3 | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Adran 144 | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Paragraff 1 o Atodlen 2 (yn rhannol) | 1 Rhagfyr 2014 | 2014/3127 (Cy. 316) |
| Rhan 2 o Atodlen 3 | 25 Chwefror 2015 | 2015/380 (Cy. 39) |

*Gweler* hefyd adran 145(1) o'r Ddeddf ar gyfer y darpariaethau a ddaeth i rym ar y diwrnod y cafodd y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol ac adran 145(2) ar gyfer y darpariaethau hynny a ddaeth i rym 2 fis ar ôl i'r Ddeddf gael y Cydsyniad Brenhinol.

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2015 Rhif 1272 (Cy. 88) (C. 73)

# TAI, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Tai (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Darfodol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) 2015

*Gwnaed* *21 Ebrill 2015*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 145(3) a (4) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014(**1**).

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Tai (Cymru) 2014 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Darfodol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) 2015.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Tai (Cymru) 2014.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 27 Ebrill 2015**

**2.** Yn ddarostyngedig i erthyglau 4, 5, 6, 7 ac 8, y diwrnod penodedig i'r darpariaethau yn y Ddeddf a restrwyd yn yr Atodlen ddod i rym at y dibenion a bennwyd (i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym) yw 27 Ebrill 2015.

**Y ddarpariaeth sy'n dod i rym ar 1 Gorffennaf 2015**

**3.** Yn ddarostyngedig i erthyglau 4, 5 ac 8, y diwrnod penodedig i adran 78 o'r Ddeddf (penderfynu rhoi sylw i fwriadoldeb) ddod i rym at yr holl ddibenion sy'n weddill yw 1 Gorffennaf 2015.

(**1**) 2014 dccc 7.

**Darpariaethau darfodol a throsiannol a darpariaethau arbed**

**4.** Mae'r darpariaethau darfodol a throsiannol a'r darpariaethau arbed a ganlyn yn cael effaith.

**Darpariaeth arbed mewn perthynas â Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014**

**5.**—(1) Er gwaethaf cychwyn adran 61 o'r Ddeddf, ac Atodlen 2 iddi, mae Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014(**1**) yn parhau i gael effaith (yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiad neu ddirymiad wedyn) fel pe baent wedi eu gwneud o dan baragraff 1 o Atodlen 2 i'r Ddeddf.

(2) I'r graddau y mae Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014 yn parhau i gael effaith yn rhinwedd paragraff (1), maent yn gwneud hynny yn ddarostyngedig i'r addasiadau a ganlyn—

(a) yn rheoliad 5(1) mae'r cyfeiriad at "Ran 7 o Ddeddf 1996" yn cael effaith fel pe bai'n gyfeiriad at "adran 66, 68, 73 neu 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014"; a

(b) yn rheoliad 6(1) mae'r cyfeiriad at "Ran 7 o Ddeddf 1996" yn cael effaith fel pe bai'n gyfeiriad at "adran 66, 68, 73 neu 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014".

**Addasiad darfodol i'r Ddeddf**

**6.**—(1) Daw'r erthygl hon i rym ar 27 Ebrill 2015.

(2) Mae'r erthygl hon yn gwneud addasiad darfodol i adran 75(2)(d) o'r Ddeddf gydag effaith tan 1 Gorffennaf 2015.

(3) Hyd nes i adran 78 o'r Ddeddf (penderfynu rhoi sylw i fwriadoldeb) ddod i rym yn llawn yn rhinwedd erthygl 3, mae adran 75(2)(d) i'w darllen fel pe bai'r geiriau "os yw'r awdurdod yn rhoi sylw i ba un a yw ceisydd yn ddigartref yn fwriadol ai peidio (gweler adran 77)" wedi eu hepgor.

**Darpariaeth drosiannol mewn perthynas â cheisiadau am lety neu gynhorthwy sydd yn yr arfaeth**

**7.**—(1) Daw'r erthygl hon i rym ar 27 Ebrill 2015.

(2) Mae'r erthygl hon yn gymwys mewn perthynas â cheisydd sydd wedi gwneud cais, cyn 27 Ebrill 2015, i awdurdod tai lleol am lety neu gynhorthwy i sicrhau llety o dan Ran 7 o Ddeddf Tai 1996(**2**).

(**1**) O.S. 2014/2603 (Cy. 257).
(**2**) 1996 p. 52.

(3) Er gwaethaf erthyglau 2 a 3, mae Rhan 7 o Ddeddf Tai 1996 yn parhau mewn grym mewn perthynas â'r ceiswyr hyn.

**Addasiad darfodol i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970**

**8.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gwneud addasiad darfodol i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970(**1**) fel y mae'n gymwys i Gymru, gydag effaith o 27 Ebrill 2015.

(2) Hyd nes i Atodlen 2 (swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol) i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**2**) ddod i rym, mae Atodlen 1 (swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol) i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 i'w darllen o ran ei chymhwyso at Gymru—

(a) fel pe bai'r eitem ar gyfer Deddf Tai 1996 wedi ei hepgor;

(b) fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod yn lle'r eitem honno:

| | |
|---|---|
| "Housing (Wales) Act 2014<br>Section 95(2), (3) and (4); but only where those functions apply by virtue of subsection (5)(b) of that section. | Co-operation and information sharing in relation to homeless persons and persons threatened with homelessness." |

*Lesley Griffiths*

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, un o Weinidogion Cymru

21 Ebrill 2015

(**1**) 1970 p. 42.
(**2**) 2014 dccc 4.

# YR ATODLEN

Erthygl 2

## Y darpariaethau yn y Ddeddf sy'n dod i rym ar 27 Ebrill 2015

**1.** Adran 50 (dyletswydd i gynnal adolygiad digartrefedd a llunio strategaeth ddigartrefedd) at bob diben sy'n weddill;

**2.** Adran 51 (adolygiadau digartrefedd) at bob diben;

**3.** Adran 52 (strategaethau digartrefedd) at bob diben;

**4.** Adran 53 (trosolwg o'r bennod hon) at bob diben;

**5.** Adran 54 (cymhwyso termau allweddol) at bob diben;

**6.** Adran 55 (ystyr digartrefedd a'r bygythiad o ddigartrefedd) at bob diben;

**7.** Adran 56 (ystyr llety sydd ar gael i'w feddiannu) at bob diben;

**8.** Adran 57 (a yw'n rhesymol parhau i feddiannu llety) at bob diben sy'n weddill;

**9.** Adran 58 (ystyr camdriniaeth a camdriniaeth ddomestig) at bob diben;

**10.** Adran 59 (addasrwydd llety) at bob diben sy'n weddill;

**11.** Adran 60 (dyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy i gael gafael ar gymorth) at bob diben;

**12.** Adran 61 (cymhwystra am gymorth o dan y bennod hon) at bob diben;

**13.** Adran 62 (dyletswydd i asesu) at bob diben;

**14.** Adran 63 (hysbysu am ganlyniad asesiad) at bob diben;

**15.** Adran 64 (sut i sicrhau neu gynorthwyo i sicrhau bod llety ar gael) at bob diben sy'n weddill;

**16.** Adran 65 (ystyr cynorthwyo i sicrhau) at bob diben;

**17.** Adran 66 (dyletswydd i gynorthwyo i atal ceisydd rhag dod yn ddigartref) at bob diben;

**18.** Adran 67 (amgylchiadau pan fo'r ddyletswydd yn adran 66 yn dod i ben) at bob diben;

**19.** Adran 68 (dyletswydd interim i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr digartref mewn angen blaenoriaethol) at bob diben;

**20.** Adran 69 (amgylchiadau pan fo'r ddyletswydd yn adran 68 yn dod i ben) at bob diben;

**21.** Adran 70 (angen blaenoriaethol am lety) at bob diben;

**22.** Adran 71 (ystyr hyglwyf yn adran 70) at bob diben;

**23.** Adran 72 (pŵer i ddiwygio neu ddiddymu darpariaethau ynghylch angen blaenoriaethol am lety) at bob diben sy'n weddill;

**24.** Adran 73 (dyletswydd i gynorthwyo i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr digartref) at bob diben;

**25.** Adran 74 (amgylchiadau pan fo'r ddyletswydd yn adran 73 yn dod i ben) at bob diben;

**26.** Adran 75(1), (2) a (4) (dyletswydd i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr mewn angen blaenoriaethol pan fo'r ddyletswydd yn adran 73 yn dod i ben) at bob diben(**1**) ;

**27.** Adran 76 (amgylchiadau pan fo'r ddyletswydd yn adran 75 yn dod i ben) at bob diben;

**28.** Adran 77 (ystyr bod yn ddigartref yn fwriadol) at bob diben;

**29.** Adran 78(2) (penderfynu rhoi sylw i fwriadoldeb) at ddibenion galluogi awdurdod tai lleol i wneud penderfyniad a chyhoeddi hysbysiad o'r penderfyniad hwnnw(**2**);

**30.** Adran 79 (amgylchiadau pellach pan fo'r dyletswyddau i gynorthwyo ceiswyr yn dod i ben) at bob diben;

**31.** Adran 80 (atgyfeirio achos at awdurdod tai lleol arall) at bob diben sy'n weddill;

**32.** Adran 81 (cysylltiad lleol) at bob diben sy'n weddill;

**33.** Adran 82 (dyletswyddau i geisydd y mae ei achos yn cael ei ystyried ar gyfer ei atgyfeirio neu'n cael ei atgyfeirio) at bob diben;

**34.** Adran 83 (achosion a atgyfeirir gan awdurdod tai lleol yn Lloegr) at bob diben;

**35.** Adran 84 (hysbysiad bod dyletswyddau wedi dod i ben) at bob diben;

**36.** Adran 85 (hawl i ofyn am adolygiad) at bob diben;

---

(**1**) Nid yw adran 75(3) yn cael ei chychwyn ar hyn o bryd ac mae adran 75(2)(d) yn cael ei haddasu dros dro gan erthygl 6 hyd nes y daw adran 78 i rym yn llawn ar 1 Gorffennaf 2015.

(**2**) Mae erthygl 3 yn dwyn adran 78 i rym yn llawn at bob diben ar 1 Gorffennaf 2015.

**37.** Adran 86 (gweithdrefn ar gyfer adolygiad) at bob diben sy'n weddill;

**38.** Adran 87 (effaith penderfyniad mewn adolygiad neu apêl na chafodd camau rhesymol eu cymryd) at bob diben;

**39.** Adran 88 (hawl i apelio i lys sirol ar bwynt cyfreithiol) at bob diben;

**40.** Adran 89 (apelau yn erbyn gwrthodiad i letya wrth aros am apêl) at bob diben;

**41.** Adran 90 (ffioedd) at bob diben;

**42.** Adran 91 (lleoli y tu allan i'r ardal) at bob diben;

**43.** Adran 92 (llety interim: trefniadau â landlord preifat) at bob diben;

**44.** Adran 93 (gwarchod eiddo) at bob diben;

**45.** Adran 94 (gwarchod eiddo: darpariaethau atodol) at bob diben;

**46.** Adran 95 (cydweithredu) at bob diben sy'n weddill;

**47.** Adran 96 (cydweithredu mewn achosion penodol yn ymwneud â phlant) at bob diben;

**48.** Adran 97 (datganiadau anwir, celu gwybodaeth a methiant i ddatgelu newid mewn amgylchiadau) at bob diben;

**49.** Adran 98 (canllawiau) at bob diben sy'n weddill;

**50.** Adran 99 (dehongli'r bennod hon a mynegai o ymadroddion wedi eu diffinio) at bob diben sy'n weddill;

**51.** Adran 100 (diwygiadau canlyniadol) at bob diben;

**52.** Atodlen 2 at bob diben sy'n weddill; a

**53.** Rhan 1 o Atodlen 3 at bob diben.